

Atodlen Penderfyniadau

Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2023

Gwnaeth yr Aelod Cabinet y penderfyniadau canlynol ar 1 Rhagfyr 2023. Byddant yn dod i rym ganol dydd ar 11 Rhagfyr 2023 ac eithrio unrhyw benderfyniad penodol, sy'n destun "galw i mewn" dilys

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflen cais 'Galw i Mewn' yw 4.00 pm ar 8 Rhagfyr 2023.

Gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â'r broses 'Galw i Mewn' trwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

Nid yw adroddiadau sy'n ymwneud â materion staffio / adroddiadau cyfrinachol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor fel rhan o'r prosesau ymgynghori / galw i mewn.

Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar 10/23

Cynnig Ad-drefnu Ysgolion ar y Cyd – Lleihau Capasiti ac Ymestyn yr Ystod Oedran yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas

Opsiynau a Ystyriwyd / Rhesymau dros y Penderfyniad

Roedd ymgynghoriad ffurfiol wedi dod i'r casgliad y byddai'r cynnig ad-drefnu ysgolion yn cael ei ddatblygu ar y cyd gan y Cyngor a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru "i leihau capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas o 378 i 315 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024, ac i ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed o fis Medi 2025".

Lansiwyd y cynnig ar y cyd ym mis Mehefin 2023, gyda chyfnod o chyfnod ymgynghori ffurfiol o chwe wythnos yn cael ei gynnal rhwng 19 Mehefin 2023 a 30 Gorffennaf 2023.

Cafodd adroddiad ymgynghori, a oedd yn disgrifio'r broses ymgynghori a'r adborth a gafwyd, ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefanau Cyngor Dinas Casnewydd ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas, a rannwyd â rhanddeiliaid ac a ystyriwyd gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol. Roedd yr adroddiad penderfyniad hwn yn cyfeirio at y canfyddiadau, ac roedd canlyniad hyn yn argymhell bod y Cyngor a'r Corff Llywodraethu yn cyhoeddi cynnig statudol. Byddai unrhyw wrthwynebiadau cyfreithiol a gyflwynwyd yn ystod cyfnod y cynnig statudol yn cael eu hystyried wrth wneud y penderfyniad terfynol.

Penderfyniad

Gwnaeth yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol am gyfnod o 28 diwrnod mewn perthynas â'r cynnig i leihau capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru o 378 i 315 o leoedd i ddisgyblion o fis Medi 2024, ac ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed o fis Medi 2025.

Ymgynghoriad

Pennaeth y Gyfraith a Safonau, Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid a Phennaeth Cyllid.

Ymgynghorwyd â'r holl aelodau a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau. Mae unrhyw sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb wedi hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Gweithredir gan: Prif Swyddog Addysg

Amserlen Weithredu: Ar unwaith

Y CYNGHORYDD D DAVIES, AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R BLYNYDDOEDD
CYNNAR

Dyddiad: 1 Rhagfyr 2023
